# Cylchlythyr Tachwedd 2022

Campaign Preview | HTML Source | Plain-Text Email | Details

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023




Rydyn ni newydd lansio ymgyrch *Gair mewn Gwlân* fel rhan o brosiect addysg a chymunedol ar gyfer Eisteddfod 2023. Elfen gyntaf yr ymgyrch yw'r apêl am grosiwyr a gweuwyr i greu sgwariau 8"x8" ar gyfer ysgolion lleol, ac i'r rheini sydd eisiau helpu ond methu gweu, rydyn ni hefyd yn chwilio am wlân. Rhagor yma.

We've just launched the *Words in Wool* campaign as part of a community and education project for the 2023 Eisteddfod, looking for crocheters and knitters to create 8"x8" squares for local schools. And for those who want to help but can't knit, we need a lot of wool! More here.




Mae dyddiad cau cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn prysur agosau, gyda llai na phythefnos i fynd erbyn hyn! Rhaid i bopeth ein cyrraedd ni erbyn 1 Rhagfyr. Porth yw'r testun eleni a'r gamp yw creu cyfrol o ryddiaith o ddim mwy na 40,000 gair. Y beirniaid yw Menna Baines, Lleucu Roberts ac Ion Thomas. Manylion yma.

The closing date for the 2023 Prose Medal is fast approaching with less than two weeks to go until 1 December. This year's theme is 'Porth' (gateway) and the adjudicators are Menna Baines, Lleucu Roberts and Ion Thomas. More here.





Heb lwyddo i gael lle ar ein taith gerdded ddiweddar o amgylch Aberdâr? Rydyn ni'n mynd ar grwydr eto, o amgylch Pontypridd y tro 'ma. Ymunwch â Siôn Tomos Owen am 12:00 ddydd Sul 4 Rhagfyr am daith hamddenol a hanesyddol o amgylch y dref, gyda chyfle i flasu cwrw lleol yng Nghlwb y Bont ar y diwedd. Archebwch eich lle yma.

Missed out on our walking tour around Aberdare? We're on the move again as we explore the history of Pontypridd with Siôn Tomos Owen at 12:00 on Sunday 4 December, with a chance to sample some local beer in Clwb y Bont at the end. Click here to register.



Rydyn ni'n chwilio am swyddogion ar gyfer Pwyllgor Gwaith Rhondda Cynon Taf. Dyma gyfle i fod yn rhan o brosiect #stedfod2024 o'r cychwyn. Mae'r manylion i gyd yma, a gallwch enwebu eich hun neu rywun arall fel Cadeirydd, Is-gadeirydd neu Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith, neu Gadeirydd y Gronfa Leol. Y dyddiad cau yw 23 Tachwedd.

Looking to get involved in the Rhondda Cynon Taf Eisteddfod right from the start? We're looking for a Chair, Deputy-chair and Secretary for the Executive Committee and the Chair of the Local Fund Committee. Find out more here. Closing date 23 November.



Feedback